

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A
GYNHALIWDYD AM 9:30AM AR 7 RHAGFYR 2021 YN NHŶ HASTINGS A THRWY
'TEAMS'**

Yn bresennol: Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell a Mrs Julie May

Swyddogion CFfDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

Amser Dechrau: 09:30

Amser Gorffen: 11:45

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddwyd briff gan y Cadeirydd i'r Comisiwn ar y cyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LIC):

- Rhoddwyd diweddariad ar benodi Comisiynwyr newydd. Lluniwyd rhestr fer ar gyfer rôl y Cadeirydd a Chomisiynwyr, a bydd cyfweiliadau'n dechrau'r wythnos nesaf. Bydd dau ymgeisydd yn cyfweld ar gyfer rôl y Cadeirydd a bydd chwe ymgeisydd yn cyfweld ar gyfer rôl aelod o'r Comisiwn.
- Mae'r Gweinidog wedi cytuno i ymestyn tymor y Cadeirydd presennol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2022.
- Trafodwyd yr ohebiaeth ynghylch ward etholiadol Llansteffan a Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin. Adroddodd Lisa James fod yr unigolyn wedi ysgrifennu at Is-adran Noddi LIC hefyd.
- Cafwyd trafodaeth ar yr hyn y gall y Comisiwn ei ddysgu o'r mater a godwyd. **Cytunwyd** y gallai'r Comisiwn bwysleisio mwy bod yn rhaid i unigolion ymateb o fewn y cyfnodau ymgynghori er mwyn i sylwadau gael eu hystyried. Hefyd, **cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn cadw cofnod ar ffeil o'r mapiau Google a ddefnyddiwyd pan gaiff ei ddefnyddio fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. **Cytunwyd** ei bod yn bwysig cael safon ar gyfer gwneud penderfyniadau a chofnod clir o bob penderfyniad a wneir.

- Cafwyd trafodaeth ar ddatblygu porth ac mae'r Is-adran Noddi yn cefnogi'r syniad. Cytunodd Lisa James y bydd cyfeirio'r cyhoedd at y porth a defnyddio'r porth i anfon gwybodaeth gan gynnwys Polisi a Gweithdrefnau yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae Pwyllgor arbennig wedi'i sefydlu i ystyried deddfwriaeth ar ddiwygio Senedd Cymru, ac un o'r materion sy'n cael ei ystyried yw ffiniau etholaethau Senedd Cymru.
- Mae addasiadau i'r adran ddisgrifiadol ar gymunedau yn cael eu gwneud i Orchymyn Powys. Bydd addasiadau tebyg i Orchymyn Wreccsam.
- Mae Swyddog Cofrestru Etholiadol Caerffili wedi adrodd bod angen diwygio'r map a ddefnyddiwyd ar gyfer Gorchymyn Argymhellion Terfynol Caerffili. Mae Ymgynghorwyr Cyfreithiol LIC yn penderfynu ar hyn o bryd a fydd angen cyhoeddi map newydd. Mae'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi anfon ffeiliau mapiau newydd at LIC.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 29 Tachwedd 2021 gan y Prif Weithredwr.
- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:
 - **(Mater 1)** Bydd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Busnes yn trafod eu hanghenion hyfforddiant â staff ac yn datblygu Cynllun Hyfforddiant a Datblygu yn seiliedig ar y trafodaethau hynny.
 - **(Mater 2)** Mae pob Gorchymyn wedi'i gyhoeddi bellach, gyda mân addasiadau i rai dethol.
 - **(Mater 8)** Mae'r Pennaeth Busnes wrthi'n cael dyfynbrisiau ar gyfer aseswyr Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi. Mae'r Prif Weithredwr wedi hysbysu Lisa James ac mae staff y Comisiwn yn ymwybodol bod ailstrwythuro'n digwydd.

- **(Mater 9)** Cyfarfu'r Prif Weithredwr ag Is-adran Noddi LIC, a chytunwyd, os profir bod y porth yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd, y bydd LIC yn ymrwymo i gyllido'r broses ddatblygu. **Nodwyd** bod gan y Comisiwn fanylebau tendr y Comisiwn Ffiniau i Gymru eisoes ar gyfer y porth a gellir gwneud mân newidiadau i hyn cyn mynd i dendro. Hefyd, **nodwyd** y gall y Comisiwn gysylltu'r porth â chronfa ddata'r Comisiwn, a fydd yn helpu symleiddio'r broses arolygu.
- **(Mater 10)** Cynhaliodd y Comisiwn gyfarfod cyntaf Gweithgor Ymchwil Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023 ym mis Hydref ac roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Llywodraeth Cymru yn bresennol. **Cytunwyd** y bydd dau ddarn o ymchwil yn cael eu comisiynu. Y cyntaf ar effaith materion poblogaeth ansafonol ar lwyth gwaith aelodau etholedig, a'r ail ar effaith materion amddifadedd.
- **(Mater 11) Nodwyd** y gallai fod angen trafodaeth bellach ag Is-bwyllgor y Gweithlu ynghylch recriwtio Prif Weithredwr y Comisiwn. **Nododd** y Prif Weithredwr y bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r Telerau ac Amodau.

5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 4 Tachwedd 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 5.2. **Nodwyd** bod Gorchmynion wedi'u cyhoeddi bellach ar gyfer pob un o'r 22 o ardaloedd prif gynghorau, yn ogystal â'r Gorchymyn Cymunedol ar gyfer Sir Fynwy.
- 5.3. **Nodwyd** bod yr Arolwg Ordnans yn gwirio'r Gorchmynion a bod y Comisiwn yn ateb ymholiadau yn unol â hynny.
- 5.4. **Cytunwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thynnu oddi ar yr agenda o'r cyfarfod nesaf ymlaen.

6. Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023

- 6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 17 Tachwedd 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. Trafodwyd drafft y ddogfen Polisi ac Arferion ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023 a **chytunwyd** ar fân ddiwygiadau.
- 6.3. **Cytunwyd** bod y ddogfen Safon Gwneud Penderfyniadau yn ychwanegiad pwysig at broses arolygu'r Comisiwn.

- 6.4. **Gweithredu:** Dave Powell i anfon nodiadau ar y ddogfen Polisi ac Arferion at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ar ôl y cyfarfod.

7. Canllawiau Drafft yr Arolygon Cymunedol

- 7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 30 Tachwedd 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 7.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn, yn dilyn cyngor gan Gyngorydd Cyfreithiol y Comisiwn, wedi diweddarau'r Canllawiau drafft blaenorol ar gyfer Arolygon Cymunedol er mwyn nodi'n glir fod dau fath gwahanol o arolwg cymunedol.
- 7.3. **Cytunwyd** ar Ganllawiau drafft yr Arolygon Cymunedol, yn amodol ar fân ddiwygiadau.
- 7.4. **Nodwyd** bod Arolwg Cymunedol wedi dechrau yng Nghoety, Pen-y-bont ar Ogwr.

8. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

- 8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 7 Rhagfyr 2021 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y sefyllfa gyllidebol gyfredol ar gyfer 2021-22.
- 8.2. **Nodwyd** y newidiadau canlynol i Gategorïau'r Gyllideb. Bu gostyngiad o £3,000 yng Nghostau Staff a Gyflogir yn Uniongyrchol, o £146,000 i £143,000, a bu cynnydd o £3,000 yn y gyllideb Gofynion Cyfryngau, o £0 i £3,000. Nodwyd sefyllfa bresennol y gyllideb ar gyfer 2021-22.
- 8.3. **Adroddwyd** y bydd y Comisiwn wedi tanwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er nad oedd yr union swm yn hysbys ar hyn o bryd gan fod angen cadarnhau a chynnwys gwariant yn y chwarter olaf ar gyfer costau'r porth, ymchwil y Rhaglen Arolygon Etholiadol, a darparu dyfeisiau Surface Pro newydd i staff. Hefyd, bydd angen gwariant pellach ar hyfforddiant a chynefino ar gyfer aelodau newydd. Roedd disgwyl y bydd gan y Comisiwn ddarlun cliriach o sefyllfa derfynol y gyllideb ym mis Ionawr 2022. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn ystyried yn y cyfarfod ym mis Ionawr faint o Gymorth Grant i'w ildio'n ôl i Lywodraeth Cymru.
- 8.4. **Cytunwyd** y bydd sesiynau hyfforddiant lluosog yn cael eu cynnal rhwng y Comisiynwyr presennol a'r Comisiynwyr newydd ym mis Chwefror/Mawrth. Hefyd, **cytunwyd** y bydd sesiwn hyfforddiant yn cael ei chynnal rhwng Cyngorydd Cyfreithiol y Comisiwn a'r Comisiynwyr newydd. **Nodwyd** y

bydd y sesiynau hyfforddiant yn dibynnu ar LIC yn penodi'r Comisiynwyr newydd erbyn mis Chwefror.

- 8.5. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn gofyn i'w Gyngorydd Cyfreithiol ddarllen drwy'r ddogfen ddrafft ar Bolisi ac Arferion y Rhaglen Arolygon Etholiadol. Bydd y Comisiwn yn gofyn am amcangyfrif o'r pris er mwyn gallu dyrannu cyllid o'r flwyddyn ariannol hon i dalu'r gost.
- 8.6. **Cytunwyd** i gynnal cyfarfod rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiynwyr newydd. Bydd y Prif Weithredwr yn trefnu hyn.
- 8.7. **Nodwyd** bod y brydles ar gyfer llety presennol y Comisiwn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022. **Nodwyd** y gellid defnyddio cyngor ymgynghorol allanol ar ddod o hyd i lety addas ac y gellid dyrannu arian o gyllideb y flwyddyn ariannol hon i dalu'r gost.
- 8.8. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i gael gwybod gan LIC p'un a oes angen achos busnes ar y Comisiwn ar gyfer newid llety.
- 8.9. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i drefnu cyfarfod rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiynwyr newydd.
- 8.10. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i drefnu sesiwn hyfforddiant rhwng y Comisiynwyr presennol a'r Comisiynwyr newydd.
- 8.11. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ofyn i Gyngorydd Cyfreithiol y Comisiwn am amcangyfrif o'r pris ar gyfer darllen drwy'r ddogfen ddrafft ar Bolisi ac Arferion y Rhaglen Arolygon Etholiadol.

9. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

- 9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 17 Tachwedd 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 9.2. **Nodwyd** na wnaed unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg yn y cyfarfod diwethaf.
- 9.3. **Cytunwyd** y bydd y sgôr risg cyffredinol yn cael ei ostwng i 6 ar gyfer CR3 gan fod y risgiau'n cael eu rheoli ar hyn o bryd.
- 9.4. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu methiant y Comisiynwyr i gyfarfod wyneb i wyneb o ganlyniad i CR4, a dylid ychwanegu mesurau lliniaru i adlewyrchu y gellid defnyddio cyfarfodydd ar-lein byrrach ond ychwanegol i hyfforddi

Comisiynwyr newydd. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn monitro effaith yr amrywiad newydd o Covid cyn penderfynu cynyddu lefel y risg ar gyfer CR4.

- 9.5. **Cytunwyd** y dylai'r amgylchiadau lle nad yw'r Comisiwn yn cymeradwyo sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn cyn penodi'r Comisiynwyr newydd gael ei ychwanegu fel Risg sy'n Dod i'r Amlwg at CR5. Hefyd, dylid ychwanegu canlyniad newydd na fydd gan y Comisiwn gwrwm o bosibl pe bai'r penodiadau newydd yn cael eu gohirio. Dylid ychwanegu camau lliniaru newydd at CR5 i adlewyrchu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys diffyg trosglwyddo'r Comisiwn rhwng y Comisiynwyr presennol a'r Comisiynwyr newydd, a diffyg cymeradwyaeth i'r penderfyniad ynghylch ildio cyllid yn ôl i LIC cyn i'r Comisiynwyr newydd gymryd drosodd.
- 9.6. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ddiweddarau'r Gofrestr Risg â'r newidiadau y cytunwyd arnynt.

10. Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

- 10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig mis Tachwedd 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 10.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn yng nghyfarfod mis Mehefin 2021 wedi **cytuno** i adolygu Cynllun Gweithredu Effeithiolrwydd y Bwrdd bob chwe mis. **Nodwyd** bod pwyntiau gweithredu lluosog wedi'u rhoi ar waith ers y cyfarfod ym mis Mehefin 2021.
- 10.3. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y bwrdd wedi'i reoli'n effeithiol ac y gellid trosglwyddo'r sefyllfa sefydlog bresennol i'r aelodau newydd y flwyddyn nesaf.
- 10.4. **Cytunwyd** y dylid newid yr eitem ynghylch cyfarfodydd rheolaidd i'w cynnal yn uniongyrchol â'r Gweinidog o fis Mai i fis Ionawr 2022, a dylai ddweud eu bod yn chwarterol yn hytrach na'n rheolaidd.
- 10.5. **Cytunwyd** y bydd yr adolygiad nesaf o effeithiolrwydd y bwrdd yn cael ei ohirio tan fis Ebrill 2023 er mwyn caniatáu amser i'r aelodau newydd gael profiad o'r bwrdd cyn cwblhau ymarfer Effeithiolrwydd y Bwrdd. **Cytunwyd** y bydd yr aelodau newydd yn gallu newid y broses asesu effeithiolrwydd y bwrdd petaent yn dymuno gwneud hynny.

11. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

- 11.1. Adroddwyd y bydd y rhan fwyaf o staff yn gweithio gartref yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Bydd Swyddog Cymorth Tîm yn y swyddfa ddydd Mercher 22 Rhagfyr. Bydd y Prif Weithredwr yn parhau i fonitro cyfyngiadau a chynghor gan LIC a bydd yn dilyn canllawiau lechyd y Cyhoedd. **Nodwyd** y gallai cyfyngiadau pellach effeithio ar waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru.
- 11.2. Bydd Julie May yn dod â'i hoffer i mewn ddydd Mercher 22 Rhagfyr a bydd yn cysylltu â Swyddog Cymorth Tîm i drefnu amser ar gyfer trosglwyddo.
- 11.3. **Gweithredu:** Swyddog Cymorth Tîm a Julie May i drefnu amser ar gyfer dychwelyd offer.

12. Calendr Digwyddiadau

- 12.1. **Nodwyd** y Calendr gan y Comisiwn.
- 12.2. **Cytunwyd** y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Ionawr 2022 am 12:30pm. Bydd y cyfarfod yn fyr a bydd yn dilyn y cyfarfod Rhyng-gomisiwn a ddaw i ben am 12pm. **Cytunwyd** y bydd Ceri Stradling yn cyflwyno yn y cyfarfod Rhyng-gomisiwn.
- 12.3. **Cytunwyd** y bydd cyfarfod y Comisiwn ym mis Chwefror yn cael ei gynnal ar 22 Chwefror 2022 ond gallai hyn newid.
- 12.4. **Nodwyd** y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 28 Chwefror 2022. **Cytunwyd** y dylai Cadeirydd newydd y Comisiwn fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, os yw hynny'n bosibl.

13. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

- 13.1. Diolchwyd Julie May yn ffurfiol gan y Comisiwn am ei hymdrechion rhagorol fel comisiynydd a'i chyfraniad sylweddol ers ei phenodi. Ychwanegodd Julie May ei diolch i'r Ysgrifenyddiaeth a'i chyd-Gomisiynwyr, gan ganmol eu hymdrechion ac anfon dymuniadau gorau at y Comisiynwyr newydd.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Ionawr 2022